MARC 8: 27-36

Datganiad Pedr ynglŷn â Iesu

Aeth Iesu a'i ddisgyblion allan i bentrefi Cesarea Philipi, ac ar y ffordd holodd ei ddisgyblion: "Pwy," meddai wrthynt, "y mae pobl yn dweud ydwyf fi?" Dywedasant hwythau wrtho, "Mae rhai'n dweud Ioan Fedyddiwr, ac eraill Elias, ac eraill drachefn, un o'r proffwydi." Gofynnodd ef iddynt, "A chwithau, pwy meddwch chwi ydwyf fi?" Atebodd Pedr ef, "Ti yw'r Meseia." Rhybuddiodd hwy i beidio â dweud wrth neb amdano.

Iesu'n Rhagfynegi ei Farwolaeth a'i Atgyfodiad

Yna dechreuodd eu dysgu bod yn rhaid i Fab y Dyn ddioddef llawer, a chael ei wrthod gan yr henuriaid a'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, ac ymhen tridiau atgyfodi. Yr oedd yn llefaru'r gair hwn yn gwbl agored. A chymerodd Pedr ef ato a dechrau ei geryddu. Troes yntau, ac wedi edrych ar ei ddisgyblion ceryddodd Pedr. "Dos ymaith o'm golwg, Satan," meddai, "oherwydd nid ar bethau Duw y mae dy fryd ond ar bethau dynol." Galwodd ato'r dyrfa ynghyd â'i ddisgyblion a dywedodd wrthynt, "Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i. Oherwydd pwy bynnag a fyn gadw ei fywyd, fe'i cyll, ond pwy bynnag a gyll ei fywyd er fy mwyn i a'r Efengyl, fe'i ceidw."

Myfyrdod

Bu'r drafodaeth am sut i dalu am ofal cymdeithasol ac ariannu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn llenwi'r newyddion yn ystod yr wythnos a aeth heibio. Dygwyd cynllun gerbron gan y Llywodraeth ond bu cryn feirniadu arno, a hynny'n bennaf am ei fod yn rhoi pen trymaf y baich ar yr ifanc. Diau nad oes ateb hawdd i'r broblem, a bydd pawb ohonom yn ei gweld o'n safbwynt ein hunan.

Felly yr oedd hi gyda gweinidogaeth Iesu hefyd, fel y dengys hanes yr hyn a ddigwyddodd pan holodd ef ei ddisgyblion pwy oedd pobl yn feddwl ydoedd? Cafwyd atebion amrywiol, ond yr oedd pawb i bob golwg yn cytuno ei fod yn rhywun o bwys. Yna, pan holodd Iesu ymhellach pwy yr oedd y disgyblion yn tybio ydoedd, Pedr sy'n ateb, a hynny heb flewyn ar dafod;**"Ti yw'r Meseia."**

Roedd Pedr wedi penderfynu, yn ei feddwl ei hun, pwy oedd Iesu Grist, ac roedd ganddo ei ddisgwyliadau penodol amdano. Chwalwyd y disgwyliadau hynny pan aeth Iesu yn ei flaen i ddweud y byddai yn dioddef a marw ac atgyfodi! Doedd hynny ddim wedi dod i feddwl Pedr, ac y mae'n dwyn Iesu o'r neilltu i'w geryddu. Ond y mae Iesu'n bendant mai dyna'r gwir, ac y byddai'n rhaid i bawb a'i dilynai ef ddilyn yr un llwybr; **"Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i."**

Heddiw y mae yna Gristnogion sy'n gorfod codi'r groes dan amgylchiadau o erledigaeth a gormes. Cofiwn am Gristnogion Afghanistan sydd mewn sefyllfa fregus eithriadol a bywyd rhai ohonynt o bosibl mewn perygl. Yn ôl mudiad 'Open Doors' sy'n cefnogi Cristnogion mewn gwledydd lle ceir erledigaeth dim ond Gogledd Korea sy'n lle mwy peryglus i Gristnogion ar hyn o bryd.

Ond beth amdanom ni? Beth yw ystyr codi'r groes i ni? Onid rhoi blaenoriaethau Duw o flaen ein blaenoriaethau ein hunain. Ystyried anghenion eraill, ac ymroi orau y gallwn i'w gwasanaethu? Os felly, yng nghanol bywyd go iawn y digwydd

hynny; lle y mae'n rhaid llunio polisi a chodi arian a byw efo canlyniadau hynny.

Dwysawyd yr argyfwng yn y gwasanaeth iechyd a gofal gan Covid19. Ond onid dyna hefyd gefndir cymaint o'r ymroddiad, dewrder a charedigrwydd a welwyd dros y misoedd diwethaf. Bydd angen ymateb yr un mor gadarnhaol, creadigol ac anhunanol i sicrhau gofal cymdeithasol teilwng i'r dyfodol;

Gofynni godi'r groes,
A'th ddilyn, Iesu cu:
Mae'n dywyll nos a ninnau'n flin,
Er hyn dilynaf di.

F T Palgrave, cyf. Elfed

Gweddi

Dduw creadigol,
gelwaist ni i'th deyrnas,
a'n mabwysiadu fel dy blant.
Brynwr a Gwaredwr,
dangosaist i ni sut i fod yn wasanaethyddion,
gan ymwrthod â ni ein hunain er mwyn gwasanaethu eraill.
Ysbryd sy'n ein cynnal,
rwyt yn rhoi nerth i ni godi ein croes
i wasanaethu teyrnas Dduw.
Dysg ni i wasanaethu eraill,
a thrwy hynny, dy wasanaethu di.
Amen.

Gweddi o gyffes - 'Pwy yw Iesu?'

Am yr adegau y gofynnwyd y cwestiwn hwn i mi,
a minnau yn ei chael yn anodd ateb:
Maddau i mi, Arglwydd, a rho i mi dy eiriau di i'w dweud.

Am yr adegau pan fu arnaf gywilydd dy gydnabod di:
Maddau i mi, Arglwydd, a gwna fi'n ddewr.

Am yr adegau y bu i mi ystyried materion dynol yn unig, ac nid rhai Duw:
Maddau i mi, Arglwydd, ac ehanga fy ngorwelion.

Am yr adegau pan welais gyfleoedd i fentro dros Dduw
ond i ofn neu betruster wneud i mi edrych i'r cyfeiriad arall:
Maddau i mi, Arglwydd, a chynydda fy hyder ynot ti.

Am yr adegau pan fyddaf yn cymryd dim ond y siocledi rwyf yn eu hoffi allan o dy focs:
Maddau i mi, Arglwydd, a gwna fi'n gyfan,
yn barod i wneud dy ewyllys da di.
Amen.

Emyn 710

Arglwydd Iesu, dysg im gerdded
drwy y byd yn ôl dy droed;
'chollodd neb y ffordd i'r nefoedd
wrth dy ganlyn di erioed:
mae yn olau
ond cael gweld dy wyneb di.

Araf fawn wyf fi i ddysgu,
amyneddgar iawn wyt ti;
mae dy ras yn drech na phechod -
aeth dy ras a'm henaid i;
paid rhoi fyny
nes im cyrraedd trothwy'r drws.

Ar fy ngyrfa dysg im weithio
gwaith y nef, wrth olau fydd,
nes im ddyfod yn gyfarwydd
a gorchwylion gwlad y dydd;
dysgu'r anthem
cyn cael telyn yn y côr.

Dysg im siarad yn fwy nefol,
fel preswylwyr pur y wlad;
dysg im feddwl, fel yr angel,
yn fwy annwyl am fy Nhad:
wedi'r dysgu,
ti gei'r mawl a'r enw byth.

ELFED, 1860-1953

Ctrl a chlic

https://youtu.be/-N9w6iQM_zs

Trebor Edwards

Gweddi

Dduw cariadlon,
ymrwymwn i'th ddilyn di yr wythnos hon
i'r corneli hynny o'n byd
y bydd yn well gennym eu hanwybyddu fel arfer.
Helpa ni i weddïo a siarad a gweithredu yn dy enw.
Amen.

Gweddïau oddi ar wefan Roots Ecumenical Partnership